**Rhif: 4**

**Rhif y Cais:** **C20/1079/12/AC**

**Dyddiad Cofrestru:** **21/12/2020**

**Math y Cais:** **Amrywio Amod**

**Cymuned:** **Betws Garmon**

**Ward:** **Waunfawr**

**Bwriad:** **Cais dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C04A/0771/12/MW (Tynnu Deunyddiau o Ddyddodion Gwaith Mwynau) i ganiatáu estyniad 2-flynedd i gwblhau Gweithrediadau Mwynau hyd at 31/12/2022, gyda'r adferiad terfynol i gael ei gwblhau erbyn 31/12/2023**

**Lleoliad:** **Hafod y Wern, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AQ**

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** **GWRTHOD**

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae’r cais hwn dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio 1990 i amrywio amod 2 ar ganiatâd Cynllunio C04A/0771/12/MW (tynnu deunyddiau o ddyddodion gwaith mwynau) i ganiatáu estyniad 2-flynedd i gwblhau gweithrediadau mwynau hyd at 31/12/2022, gyda'r adferiad ar 31/12/2023.

1.2 Mae safle'r cais yn domen gwastraff llechi wedi'i leoli yn chwarel Hafod y Wern, ger Betws Garmon. Ceir mynediad cerbydol i'r safle drwy ffordd 700m o hyd o'r A4085 sy'n gwasanaethu llond llaw o anheddau preswyl.

**2. Polisïau perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS1: Yr Iaith Gymraeg a’i diwylliant

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant PS 5: Datblygiad cynaliadwy

PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd

PCYFF 1: Ffiniau datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 6: Cadwraeth dŵr

PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus

PS 19: Cadw a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol.

AMG 2: Ardaloedd Tirwedd Arbennig

AMG 5: Cynlluniau Cadwraeth Bioamrywiaeth

AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol

PS20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi

AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad

PS 22: Mwynau

MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau

MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - 2024)

**Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - Chwefror 2021) Agregau MTAN 1**

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn

Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- C16/1324/12/MW 'Cadw carafán sefydlog a chyfleuster 'messing' mewn cysylltiad â'r datblygiad mwynau a ganiateir' - rhoddwyd caniatâd 05/12/2016.
- C04A/0771/12/MW 'Gwaredu deunydd o waith mwynau' - Cymeradwywyd yn amodol i Adran 106 Cytundeb Cyfreithiol ar 14/08/2006.
- Cyflwynwyd Hysbysiad Gorfodaeth ar 27/08/2011 am waredu gwastraff llechi heb awdurdod o domen y tu hwnt i ardal yn amodol i hawl Datblygiad a Ganiateir a gynigir gan hysbysiad dan Rhan 23B (22/05/1989).
- Hysbysiad i dynnu deunydd o domen gwaith mwynau dan Rhan 23B o Orchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 a gyflwynwyd 22/05/1989.

## 4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned: Ni chafwyd ymateb.

Yr Uned Drafnidiaeth: Derbyniwyd ymateb ar 06/01/2021:
Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r cais am estyniad amser.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Derbyniwyd ymateb ar 26/01/2021:

Diolch am ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar y cais uchod. Rydym wedi adolygu'r cais cynllunio a gyflwynwyd i ni, ac o'r wybodaeth a ddarparwyd nid ydym yn ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fater a restrwyd yn ein Pynciau Ymgynghori, Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018): https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and development/our-role-in-planning-and

development/?lang=en

Felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datblygiad arfaethedig. Nid ydym yn credu y bydd parhad pellach y gweithrediadau ar y safle am ddwy flynedd ychwanegol yn cael effaith andwyol sylweddol ar ACA a SoDdGA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Noder nad yw ein penderfyniad i beidio â rhoi sylwadau yn diystyru'r posibilrwydd o'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fuddiannau eraill, gan gynnwys buddiannau amgylcheddol o bwysigrwydd lleol.

Dylid cynghori'r ymgeisydd, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, mai ei ddyletswydd ef yw sicrhau ei fod yn caffael yr holl hawlenni/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad. Hyderwn bod y sylwadau uchod o gymorth, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Ni chafwyd ymateb.

Uned Bioamrywiaeth: Derbyniwyd ymateb ar 01/02/2021:

Mae'r chwarel wedi gwneud cais am estyniad amser ar ganiatâd mwynau presennol C04A/0771/12/MW. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad hwn i barhau i weithio ar y safle a'i adfer ac i gymeradwyo estyniad amser i'r caniatâd cyfredol. Fodd bynnag, hoffwn wneud ychydig o argymhellion am fywyd gwyllt a natur.

Safle Bywyd Gwyllt

Mae safle'r chwarel o fewn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol: Hafod y Wern 1020, sydd wedi'i dewis am ei chynefinoedd (coedwigoedd ucheldirol, glaswellt y gweunydd a thir pori brwynog, cynefin mosäig agored o dir a nentydd a ddatblygwyd o'r blaen).

Yn ystod ymweliad safle ar 16/03/2010, cofnodais fras y cyrs gwrywaidd yn canu ym mrwyn y glaswelltir corsiog wrth ymyl y caniatâd mwynau. Mae'r rhywogaeth hon yn dangos ansawdd y cynefinoedd cyfagos ar gyfer bioamrywiaeth.

Hoffwn ymweld â'r safle yma eto.

Isod, ceir mapiau yn dangos y caniatâd mwynau a'r Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol.

Adfer

Nid wyf wedi derbyn copi o'r cynllun adfer. Rwy'n argymell y dylid darparu'r cynllun adfer ar gyfer y caniatâd mwynau.

Rhywogaethau ymwthiol anfrodorol

Rhestrir rhywogaethau o blanhigion anfrodorol dan atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac mae hi'n drosedd i achosi iddynt dyfu yn y gwyllt.

Dylid monitro safle'r mwynau yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anfrodorol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Dylid cynnal arolwg o safle'r chwarel ar gyfer y planhigion hyn bob blwyddyn ynghyd â map i ddangos eu lleoliad ac amcangyfrif o'u nifer gan eu darparu i'r ACLl. Dylid cael gwared o'r rhywogaethau hyn yn y ffordd briodol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Derbyniwyd ymateb ar 05/01/2021:

Diolch am yr ymgynghoriad hwn. Nid oes unrhyw oblygiadau archeolegol i'r amrywiad y gofynnir amdano.

CADW:

Derbyniwyd ymateb ar 21/01/2021:
Diolch am eich llythyr ar 31 Rhagfyr 2020 yn gwahodd ein sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y cais cynllunio uchod.

Cyngor

Wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r cais cynllunio nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig. Ceir

ein hasesiad o'r datblygiad isod.

Mae'r polisi cenedlaethol a rôl Cadw wrth gynllunio wedi'u nodi yn Atodiad A.

Asesu

CN151 Caeau a Grŵp Cytiau Hafod y Wern Las

CN179 Systemau Caeau a Chytiau i'r gogledd-ddwyrain o Nantlle

CN194 Anheddle Cyn-hanesyddol Tŷ Coch

CN261 Anheddle Cylch Cytiau i'r gogledd o Fryn Mair

CN262 Cylch Cytiau Amgaeedig i'r gogledd-orllewin o Dan Rhiw

CN264 Cylch Cytiau Amgaeedig i'r gorllewin o Lwyn Bedw

CN277 Anheddle Cylch Cytiau a System Gaeau i'r de-ddwyrain o Erw

CN307 Cwt Hir Hafod y Wern

CN316 Anheddle Gwledig Ystrad

CN364 Carnedd Craig Cwmbychan

Rhoddwyd caniatâd ar gyfer gwaredu'r deunyddiau o'r domen gyfredol yn 2006 a chafodd y cyfnod i gwblhau'r gwaith ei reoli gan amod. Nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau, felly er mwyn cwblhau'r gwaith echdynnu a chyflawni tirffurf angenrheidiol ar gyfer yr adferiad cytunedig, cynigir i amrywio amod 2 i ganiatáu

cynnal y gwaith nes diwedd 2023. Lleolir yr henebion cofrestredig uchod o fewn 3km o'r datblygiad arfaethedig, ond mae'r topograffeg, adeiladau a llystyfiant yn ymyrryd ac yn rhwystr i'r holl olygfeydd rhyngddynt. Yn sgil hynny, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar osodiad yr henebion cofrestredig hyn.

Safle Treftadaeth y Byd

Diwydiant Llechi Gogledd Cymru (safle ymgeisiol)

Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig

Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle

Nid yw ardal y cais o fewn ffiniau Diwydiant Llechi Gogledd Cymru (safle ymgeisiol) Safle Treftadaeth y Byd, ond bydd yn weledol o rannau tirwedd fynyddig Chwarel Dinorwig a thirwedd chwareli Dyffryn Nantlle ohono. Mae'r gwaith o waredu'r deunydd o'r domen

wastraff wedi bod yn mynd yn ei flaen ers peth amser a

thra bo rhai newidiadau gweledol ar raddfa fach o'r rhannau adnabyddedig o'r Safle Treftadaeth y Byd ymgeisiol, byddai'n well cwblhau'r gwaith adfer ac echdynnu a dderbyniodd ganiatâd.

Ymgynghoriadau Cyhoeddus: Rhoddwyd hysbysiad yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yn draddodiadol, mae gweithfeydd llechi yng Ngwynedd wedi'u cysylltu â chynhyrchu deunyddiau toi o ansawdd uchel, ond yn fwy diweddar caiff y llechi eu defnyddio i wneud slabiau wedi'u llifio ar gyfer defnydd pensaernïol, i wneud deunyddiau addurniadol ar gyfer adeiladau, a defnyddir gwastraff llechi hefyd fel agreg eilaidd yn lle adnoddau cynradd traddodiadol. Mae'r egwyddor o ail-weithio tomenni llechi yn cael ei dderbyn fel dewis amgen i gynigion sy'n ymwneud â mwyngloddio a gweithio deunydd o'r maen crai.

5.2 Mae Polisi MWYN 3: Datblygiadau Mwynau yn cefnogi datblygiad mwynau yn amodol ar gydymffurfio â chyfres o feini prawf. Mae meini prawf 10 yn gofyn bod ***"Y bwriad yn cynnwys cynllun ôl-ddefnydd ar gyfer y safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol er mwyn cyflawni hynny yn unol â Pholisi MWYN 9".***

5.3 Mae polisi 'MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal' o'r CDLl ar y Cyd yn gofyn bod ceisiadau ar gyfer gwaith mwynau yn cael eu gwrthod oni bai bod cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd yn cael ei gyflwyno. Yn ogystal â gofynion y polisi hwn, mae'r caniatâd cynllunio cyfredol yn destun amod sy'n gofyn am gyflwyno strategaeth adfer ac ôl-ofal o fewn blwyddyn o'r caniatâd.

5.4 Ni ymdrinnir â cheisiadau niferus ar gyfer cynllun adfer ac ôl-ofal ac mae materion yn parhau i fod heb eu cwblhau.

5.5 Felly, nid yw'r cais yn cydymffurfio â gofynion meini prawf 10 o bolisi MWYN 3 a pholisi MWYN 9 sy'n gofyn am gynllun adfer digonol ac nid yw'n dderbyniol mewn egwyddor.

**Mwynderau gweledol a'r dirwedd**

5.6 Mae polisïau PCYFF 3, AMG 2, MWYN 3 a MWYN 9 o'r CDLl ar y Cyd yn bolisïau perthnasol i'w hystyried yn nhermau effaith gweledol a'r dirwedd. Nid yw'r cais yn cynnig unrhyw newidiadau i waredu ardal o'r dyddodyn gwaith mwynau ac mae'n benodol ar gyfer ymestyn y datblygiad. Lleolir ardal y safle gyfan o fewn Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) 'Ymylon gogledd-orllewin Eryri'.

5.7 Fel y nodir uchod, nid yw'r cais yn cael ei gefnogi gan unrhyw gynigion adfer ac ôl-ofal ac nid yw'n cydymffurfio â pholisïau MWYN 3 a MWYN 9 a'r gofynion sydd heb gael sylw i gyflenwi'r manylion hyn ar y caniatâd cyfredol.

5.8 Heb gynigion adfer ac ôl-ofal digonol ar gyfer y safle yn dilyn rhoi'r gorau i waredu gwastraff mwynau, nid oes modd i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau fod yn sicr na fyddai ymddangosiad y safle yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol a'r Ardal Tirwedd Arbennig ac, yn dilyn hynny, nid yw'n cydymffurfio â pholisïau PCYFF 3, AMG 2, MWYN 3 a MWYN 9 o'r CDLl ar y Cyd.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Mae Polisi MWYN 3 y CDLl ar y Cyd yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol cyn belled nad oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig sy'n deillio o hynny.

5.10 Nid yw'r bwriad yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio a ganiatawyd ar gyfer y safle ac ni ystyrir y bydd ymestyn hyd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar fwynderau'r ardal ac felly, mae'n cydymffurfio ag anghenion polisïau PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd.

5.11 Fodd bynnag, nid yw hyn yn goresgyn y rhesymau dros wrthod sy'n ymwneud ag egwyddor y datblygiad.

**Materion Traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin**

5.12 Ni fydd y bwriad yn newid trefniadau mynediad cerbydol neu draffig yn deillio o'r datblygiad. Mae'r awdurdod priffyrdd lleol wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i ymestyn y datblygiad ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â pholisi TRA 4 o'r CDLl ar y Cyd.

**Materion ecolegol a bioamrywiaeth**

5.13 Lleolir y chwarel o fewn safle bywyd gwyllt ymgeisiol '1020 Hafod y Wern', sydd wedi'i dewis am ei chynefinoedd (coedwigoedd ucheldirol, glaswellt y gweunydd a thir pori brwynog, cynefin mosäig agored o dir a nentydd a ddatblygwyd o'r blaen). Mae ecolegydd yr awdurdod lleol wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad llwyr i ymestyn y datblygiad, ond codwyd pryderon am ddiffyg cynllun adfer a monitro ar gyfer rhywogaethau ymwthiol anfrodorol.

5.14 Gellir sicrhau'r diffyg cynllun monitro ar gyfer rhywogaethau ymwthiol anfrodorol drwy amod pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu. Mae diffyg cynllun adfer ac ôl-ofal eisoes wedi'i drafod fel rheswm sylfaenol ar gyfer gwrthod yn gynharach yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, nid yw'n cyfrif fel rheswm i wrthod ar gyfer materion ecolegol neu bolisïau perthnasol.

5.15 Ar 7 Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n ymdrin ag isadeiledd gwyrdd, gwerth net i fioamrywiaeth, y gwarchodaeth a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd. Ystyriwyd y newidiadau i PCC, fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid ydynt yn codi unrhyw faterion newydd sydd ag unrhyw ddylanwad materol ar yr argymhelliad.

5.16 Nid yw'r MPA yn ystyried y byddai ymestyn y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth lleol neu rywogaethau gwarchodedig ac mae'n cydymffurfio â pholisi AMG 5 o'r CDLl ar y Cyd.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.17 Mae Adran 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am "Ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy".

5.18 Mae'r cais yn fwy na 1,000 m. sg. ac nid yw'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg er gwaethaf ceisiadau niferus ac felly, nid yw'n cydymffurfio â pholisi PS 1 o'r CDLl ar y Cyd.

**Treftadaeth**

5.19 Lleolir y datblygiad o fewn 500m o Heneb Hynafol Gofrestredig (HHG) rhif CN307 'Cwt Hir Hafod y Wern'. Mae ymgynghoriad gyda CADW wedi cadarnhau, oherwydd y blanhigfa goed a thopograffi rhyngol, mae'n annhebygol iawn y byddai'r datblygiad yn arwain at unrhyw effaith ar osodiad yr Heneb Hynafol Gofrestredig ac yn cydymffurfio â pholisi AT 1 o'r CDLl ar y Cyd.

**Ymrwymiadau Cynllunio**

5.20 Mae caniatâd cynllunio C04A/0771/12/MW yn amodol ar Adran 106 Cytundeb Cyfreithiol sy'n cyfyngu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y safle dan rhan 23B o Orchymyn Cyffredinol Datblygiadau a Ganiateir 1995 (fel y'i diwygiwyd) a'r datblygiadau i'r amodau hynny wedi'u atodi i'r caniatâd. Bydd angen diwygiad neu ddiddymiad o'r cytundeb cyfreithiol hwn er mwyn gweithredu unrhyw ganiatâd newydd.

**6. Casgliad:**

6.1 Nid oes gan yr MPA unrhyw ddewis arall ond gwrthod y cais oherwydd diffyg cynigion adfer ac ôl-ofal digonol sydd eu hangen dan bolisïau MWYN 3 a MWYN 9 ar gyfer unrhyw ddatblygiad mwynau.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd wrthod y cais am y rhesymau a ganlyn:

1. Nid yw'r cais wedi darparu cynllun adfer ac ôl-ofal digonol fel y gofynnir amdano ym meini prawf 10 o bolisi MWYN 3 a pholisi MWYN 9 ac felly, nid oes modd diystyru effaith andwyol y datblygiad ar fwynderau gweledol a'r Ardal Tirwedd Arbennig yn groes i bolisïau PCYFF 3 ac AMG 2 o'r CDLl ar y Cyd.

2. Nid oes Datganiad Iaith Gymraeg wedi'i gyflwyno yn unol â gofynion polisi PS 1 o'r CDLl ar y Cyd.